| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24ain Tachwedd 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Siarter Aelodau – swydd ddisgrifiadau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar ddiweddariad o'r sefyllfa ar gyfer ennill Siarter Aelodau.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. ARGYMHELLIAD

1.1 Argymhellir gweithredu mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd i swyddogion sicrhau eglurder o'r sefyllfa gyfredol a'i glymu gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cymwyseddau o fewn y Cyngor. Yn ail, adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu grwp bychan o Gynghorwyr i edrych ar y gwaith o ennill y Siarter i Gyngor Gwynedd, gan gychwyn gyda'r gwaith ar y swydd ddisgrifiadau.

## 2. CYFLWYNIAD

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cofio fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi llunio Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 sy'n adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Yn annatod felly, mae nifer fawr o elfennau o waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn clymu gyda gofynion y Siarter.

2.2 Adroddwyd i'r Pwyllgor ar 10fed o Fawrth, 2015, na fyddai modd i Gyngor Gwynedd ennill cymhwyster y Siarter gan na fyddai neb ar gael i'w dyfarnnu yn dilyn newid a lleihad yn grant CLlLC.

2.3 Bellach, mae wedi dod yn hysbys fod y sefyllfa yma wedi newid, ac felly rydym yn awyddus i barhau i fwrw ati i geisio ennill y Freinlen.

## 3. GWAITH I'W WNEUD

3.1 Mae nifer o wahanol elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus yn ennill y Freinlen. Un o'r materion cyntaf sydd angen sylw yw datblygu swydd ddisgrifiadau ar gyfer Aelodau etholedig mewn 'swyddi' penodol.

3.2 Mae gwaith wrthi'n mynd heibio i edrych ar swydd ddisgrifiadau yn gyfredol, gan edrych ar gymwyseddau ar gyfer staff ac Aelodau yr un pryd.

3.3 Mae nifer o swydd ddisgrifiadau ar gyfer Aelodau yn eu gwahanol rolau yn bodoli eisoes. Fe dderbynniodd pob aelod gopi yn eu pecyn croeso ar ddechrau'r Cyngor newydd, ynghyd â'r llyfryn 'Cyfrifoldeb a Disgwyliadau Aelodau Etholedig' sy'n cynnwys

- Disgrifiad o rộl a chyfrifoldebau cyffredinol Aelodau Etholedig, a
- Fframwaith Cymwyseddau ac Ymddygiad

3.4 Er mwyn llunio'r uchod, sefydlwyd Grwp Ffocws o gynghorwyr i ddod ynghyd i ddrafftio'r swydd ddisgrifiadau a'r cymwyseddau. Bu i'r Grwp wedyn gyfeirio'r materion er sylw i Fwrdd y Cyngor cyn i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu yn 2011.

3.5 Bu'r ffordd uchod o weithredu yn llwyddiannus gan fod perchnogaeth gan aelodau o'r swydd ddisgrifiadau a'r cymwyseddau cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

3.6 Argymhellir felly mai'r cam cyntaf yw i swyddogion sicrhau ein bod yn glir o pa swydd ddisgrifiadau sy'n bodoli a chlymu hynny hefo'r gwaith sy'n mynd rhagddo o ran datblygu cymwyseddau ymhellach. Argymhellir wedyn ein bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu grwp bychan o Gynghorwyr i edrych ar y gwaith o ennill y Siarter i Gyngor Gwynedd, gan gychwyn gyda'r gwaith ar y swydd ddisgrifiadau.